# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD LLUN, 17EG CHWEFROR, 2020**

Lleoliad

**Suite 4, Canolfan Fusnes Conwy, Llandudno Junction, Conwy LL31 9XX**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**annession@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 10 Chwefror 2020)

# IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert G Parry | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Greg Robbins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth Wyn Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Brian Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| David Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carolyn Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

## Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Emlyn Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Huw Percy | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Darren Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Stephen Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Wyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Iwan Prys Jones | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatgniad o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 12

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019.

## 6. TRENAU

Cyflwyniad gan Ioan Jenkins, Cyfarwyddwr Datblgu Trafnidiaeth Cymru - Gwasanaethau Rheolffyrdd

## 7. TEITHIO LLESOL — 13 - 16

Adroddaid gan Stephen Jones, Cyngor Sir y Fflint

## 8. DIWEDDARIAD - CLUDIANT CYHOEDDUS BIL BYSIAU CYMRU — 17 - 21

Adroddiad gan Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru

## 9. MANNAU GWEFRU — 22 - 26

Adroddiad gan Dafydd Williams, Cyngor Gwynedd

## 10. DEFNYDD HYDROGEN FEL TANWYDD Y DYFODOL — 27 - 31

Adroddiad gan Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

## 11. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Mai 2020.

# IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH
# 02.12.19

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn bresennol – Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Darren Williams (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru), Iwan G Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Davies () ac Annes Sion (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Cyng. David Bithell.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys i’w drafod.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd y cofnodion o’r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 23 Medi 2019 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD – BYSIAU RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Peter Daniels.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd ar ôl ystyried y sefyllfa bresennol i anfon llythyr i Lywodraeth Cymru ac i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Prydain ar ran yr Is Fwrdd i nodi'r problemau y gall godi o ganlyniad i’r Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod dau brif agwedd i’w drafod.

Trafodwyr Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus gan nodi fod llythyr wedi ei dderbyn gan awdurdodau lleol yn ddiweddar yn egluro’r broses o wneud cais am estyniad i’r broses o ddwy flynedd os yn cyrraedd meini prawf penodol. Nodwyd mai mynediad ar gyfer y bobl anabl yw’r prif reswm dros yr eithriad. Tynnwyd sylw at bryder

fod yr eithriad ond yn berthnasol os na werthir mwy nag 20% o'r seddi ar fysiau. Mynegwyd fod angen lobi Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau'r canran hwn. Nodwyd fod pryderon yn codi am y cyfnod saib a'r buddsoddiad fydd ei angen ei wneud i sicrhau bysus sydd yn cyrraedd y safon a holwyd beth fydd goblygiadau hyn ar fusnesau.

O ran yr ail agwedd, Adnewyddu Tocynnau Teithio Mantais am ddim, nodwyd fod niferoedd yn parhau yn isel ar draws Cymru. Mynegwyd fod Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r mater ac efallai y bydd yn codi'r niferoedd. Ychwanegwyd y bydd Ionawr yn fis ble fydd modd defnyddio'r ddau docyn ond y bydd o ganlyniad yn golygu llawer o waith i'r cwmnïau bysus.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd er ei fod yn bositif y bydd estyniad yn cael ei roi am ddwy flynedd y buasai yn well pe bai rheoliadau yn dod i rym i ysgolion ar ddechrau blwyddyn ysgol yn hytrach 'na fis Ionawr.
- Nodwyd y buasai'r rheoliadau bysus yn gorfodi cwmnïau i dynnu allan o gytundebau gan fod eu model busnes wedi ei seilio ar y cytundebau yma.
- O ran rheoliadau cerbydau i ysgolion mynegwyd fod pob awdurdod yn wahanol oherwydd yn rhai awdurdodau megis Wrecsam fod yr ysgolion yn cytundebu yn uniongyrchol a chwmnïau. Pwysleisiwyd fod angen bod yn ymwybodol o'r effaith ar ysgolion a tynnwyd sylw yn benodol at fysiau i weithgareddau megis gwersi nofio.
- O ran adnewyddu tocynnau teithio mantais am ddim nodwyd fod angen sicrhau fod y rhai sydd yn defnyddio'r tocynnau fod yn ymwybodol o'r newidiadau.

## 6. DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â CHYFYNGADAU CYFLYMDER 20 MILLTIR YR AWR AR GYFER ARDALOEDD PRESWYL LEDLED CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Huw Percy

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod angen i'r Is-Fwrdd fynd ag adroddiad i drafod yr effaith economaidd ar gyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer ardaloedd i'r Bwrdd Uchelgais.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cyhoeddiad wedi ei wneud gan y Prif Weinidog y dylai Llywodraeth Cymru geisio mabwysiadu 20mya fel cyfyngiad cyflymder rhagosoded ar gyfer ardaloedd preswyl ledled Cymru. Esboniwyd mai annog newid y dull o deithio yw'r rheswm dros y newidiadau arfaethedig. Mynegwyd fod Grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu o rhan ddeiliaid ac y bydd swyddogion o Sir Fflint a Môn yn mynychu o'r Gogledd.

Mynegwyd fod y Grŵp wedi ei rannu yn bedwar Grŵp Prosiect er mwyn edrych ar bedwar prif ffrwd gwaith. Nodwyd o ran gorfodaeth ar hyn o bryd fod hunan orfodaeth yn cael ei amlygu gan nad oes gan yr Heddlu adnoddau ar ei gyfer. Ychwanegwyd y bydd trafodaeth ag awdurdodau i drafod hawliau gorfodaeth. Tynnwyd sylw at yr amserlen gan nodi y gobeithir y bydd deddfwriaeth cyn Hydref 2020 gyda'r nod o gychwyn gweithredu'r cynllun yn 2023.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd y bydd oblygiadau ariannol o fod yn rhan o'r cynllun hwn.
- Mynegwyd nad oes ystadegau yn rhan o'r adroddiad gan y Llywodraeth o ble mae goryrru yn broblem, gan ychwanegu y buasai pobl o bosib yn fwy parod i ymateb os

yn ymateb i ffigyrau cadarn. Pwysleisiwyd mai anodd newid dull o deithio oddi wrth geir ac i gerdded a beicio yw prif flaenoriaeth y Llywodraeth.
- Holwyd os oes cynlluniau peilot am gael eu cynnal yn rhai siroedd er mwyn mesur yr effaith.
- Trafodwyd lonydd cyswllt gan nodi y gallai fod a phroblemau, ac ychwanegwyd y bydd angen gwybod ble yn union y bydd eithriadau ac os byddant yn gyson ar draws y wlad.
- O ran gorfodaeth holwyd pwy fydd yn gwneud hyn gan y bydd oblygiadau ariannol i'r cynllun i awdurdodau ac esboniwyd y bydd gwaith penodol yn edrych ar hyn ymhellach.
- Tynnwyd sylw at yr effaith economaidd gan nodi fod angen codi ymwybyddiaeth y Bwrdd Uchelgais.

## 7. DIWEDDRIAD PARCIO AR BALMENTYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Huw Percy.

**PENDERFYNWYD**

Cefnogwyd fod y swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfodydd y Grŵp Tasg Parcio Palmentydd gan nodi eu bod yn hapus a'r cynnydd sydd wedi ei wneud a bod angen nodi'r canlynol:
- Nad oes deddfwriaeth flanced ar gyfer pob ardal
- Fod angen meddwl am leoliadau penodol ac am lif traffig
- Cefnogaeth i waharddiadau parcio yn lleol ond fod angen canllawiau clir ac arian ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac amser staff.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem hon yn dilyn trywydd yr eitem flaenorol o ran cyfeiriad y Llywodraeth i annog cerddedwyr. Ychwanegwyd fod parcio ar balmentydd yn berygl ac yn gosod rhwystrau i gerddwyr ynghyd â difrodi'r palmentydd. Mynegwyd fod Deddfwriaeth Rheoli Traffig Ffordd yn galluogi awdurdodau i gyflwyno gwaharddiadau a bod grŵp penodol gan Lywodraeth Cymru wedi ei sefydlu i edrych ymhellach ar y mater.

Mynegwyd mai consensws y grŵp yw na fydd cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol yn benodol ar hyn o bryd oherwydd bod llawer o heriau. Nodwyd y buasai yn fwy ymarferol i awdurdodau i osod gwaharddiadau ar leoliadau addas. Esboniwyd y bydd camau penodol fydd yn cynnwys ymgynghori, canllawiau safon ar rybuddion a gwybodaeth bellach. Ychwanegwyd y bydd modd i Weinyddwyr Parcio gallu cadw golwg ar leoliadau sydd yn achosi problemau.

Ategwyd y bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r Gweinidog i drafod y mater a'r awdurdodau a'r heddlu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Mynegwyd fod lleoliadau yn bryder gan fod rhai lonydd yn gul ac nad oes opsiwn ond am barcio ar balmentydd a gall greu problemau o ran llif traffig. O ganlyniad bydd angen sicrhau fod y lleoliadau yn rhai synhwyrol.
- Pwysleisiwyd fod angen sicrhau fod y palmentydd yn saff gan fod arian wedi ei wario i sicrhau fod modd i bobl mwn cadeiriau olwyn eu defnyddio. Ychwanegwyd fod angen sicrhau ar rhai strydoedd fod modd i'r Gwasanaethau Brys basio heb geir yn rhwystr.

- Nodwyd os bydd angen sicrhau mannau parcio y bydd angen arian ychwanegol i greu meysydd parcio.
- Mynegwyd fod angen pwysleisio'r pwyntiau penodol yn y Grŵp Tasg.

## 8. PAPUR DIWEDDARU AR DDATBLYGIAD MABWYIAU 'FFYRDD HEB EU MABWYSIADU' LEDLED CYMRU

Cyflwynwyd gan Huw Percy.

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd fod y swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfodydd Grŵp Tasg Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu gan adrodd yn ôl i'r Is-Fwrdd Trafnidiaeth

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cam cyntaf o waith y Grŵp Tasg Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu bellach wedi ei gwblhau. Ychwanegwyd fod 'Canllaw Model Mabwysiadu Ffyrdd' wedi ei greu a bod gwaith bellach yn symud ymlaen gyda'r ail ran. Ategwyd mai'r ail gam fydd i sefydlu cronfa ddata i ddarparu cofnod cynhwysfawr o'r holl ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ac i ddatblygu safonau cyffredin ar gyfer dylunio ac adeiladau priffyrdd i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol a datblygwyr tai ar gyfer ffyrdd y gellir eu mabwysiadu

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Pwysleisiwyd fod angen safonau cyffredin gan eu bod yn amrywio o fewn ardaloedd ac felly fod angen cysondeb ar gyfer datblygwyr tai.
- Nodwyd na fydd y ddeddfwriaeth yn edrych ar achosion hanesyddol ond yn sicrhau na fydd problemau newydd yn digwydd.

## 9. TRAFNIDIAETH CARBON ISEL

Derbyniwyd cyflwyniadau ar Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan gan Geoff Murphy o SPEN, Rhys Horan o Lywodraeth Cymru ac Iwan Prys Jones o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Sylwadau'n codi o'r cyflwyniadau
- Mynegwyd pwysigrwydd cael cysondeb dros Gymru ac y bydd angen cylchreded y lleoliadau posib ar awdurdodau.
- Nodwyd fod angen i'r Is-fwrdd drafod lleoliadau dros y rhanbarth er mwyn ymgeisio am grant OLEV.
- Esboniwyd fod angen sicrhau cydweithio rhwng awdurdodau a Thrafnidiaeth yng Nghymru fel bod yn lleoliadau yn rhai cywir rhag ofn y bydd angen lleoliadau ychwanegol.
- Pwysleisiwyd fod angen holi Llywodraeth Cymru os bydd system genedlaethol fel sydd i'w gweld yn yr Alban yn cael ei greu  a beth fydd yr amserlen.
- Mynegwyd fod gangen trafodaethau a chynllun digidol y Bwrdd Uchelgais gan fod y ddau gynllun yn cydgysylltu.

## 10. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD YN 2020.

Cytunwyd ar y dyddiadau'r Is-Fwrdd ar gyfer 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am a daeth i ben am 12pm.

DATGANIAD CABINET

# Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSVAR) 2000

**Ken Skates , AC Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

Ers fy natganiad diwethaf ar 26 Tachwedd 2019, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i drafod gyda’r Adran Drafnidiaeth ac awdurdodau lleol Cymru ynghylch y canlyniadau anfwriadol sy’n gysylltiedig â PSVAR.  Rwyf wedi ysgrifennu eto at yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth

Er bod yr Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno eithriadau i PSVAR ar gyfer grwpiau penodol o wasanaethau teithio i ddysgwyr, mae Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth Cymru (ATCO), wedi nodi bod problemau cydymffurfio'n parhau i godi. Mae swyddogion wedi codi'r rhain gyda'r Adran Drafnidiaeth fel a ganlyn;

- galwadau i symleiddio'r broses weinyddol a bod tystysgrifau eithrio ar gael ar gyfer archwilio a gorfodi;
- ymholiadau o ran beth sy'n digwydd pan fydd gweithredwr yn newid cerbyd yn y fflyd yn ystod y cyfnod eithrio. a fyddai angen tystysgrif eithrio newydd ar gyfer y cerbyd newydd drwy gyflwyniad newydd i'r Adran Drafnidiaeth neu a fyddai'n rhaid i'r cerbyd newydd gydymffurfio â PSVAR 2000 ar unwaith;

- pryderon ynghylch yr wybodaeth sy'n dod gyda'r tystysgrifau eithrio, gan awgrymu unwaith y bydd y rhain yn dod i ben, y byddai yr Adran Drafnidiaeth yn disgwyl i gerbydau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gydymffurfio gyda PSVAR.Mae awdurdodau lleol yn holi a yw hyn yn cynnwys pob cerbyd o dan gontract, a allai fod yn broblem fawr;
- pryder bod yr eithrio ychwanegol tan fis Gorffennaf 2020, sy'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu caffael yn uniongyrchol gan y coleg/ysgol neu'r Awdurdod Lleol ar eu rhan, ond yn symud y broblem i rhywle arall.
- Y perygl bod cwmnïau sy'n cael eu gorfodi i ddefnyddio cerbydau sy'n cydymffurfio â PSVAR erbyn Medi 2020, yn arwain at Fentrau Bach a Chanolig yn methu cario ymlaen â'u busnes gan na fydd modd iddynt dalu'r costau ychwanegol, gyda disgyblion yn cael eu gorfodi i ddod o hyd i ffyrdd eraill o gyrraedd yr ysgol.

Mae problem arall wedi ei chodi gan un Awdurdod Lleol, o ran gwasanaethau sy'n cael eu canslo gan gwmnïau bysiau lleol, sydd wedi bod yn cynnig gwasanaethau talu o'r fath, heb gymorthdaliad na chyfraniad gan yr ysgol na'r awdurdod. Mae'r rhain yn wasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd ac sydd wedi bod ar y ffiniau.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu pryderon ATCO Cymru ynghylch y pwyntiau a godwyd, yn enwedig yr effaith bosibl ar BBaChau, awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n bosibl y gallai gweithredu'r PSVAR yn llawn beryglu yr union BBaChau sy'n ddibynnol ar waith o'r fath. Rwyf wedi annog yr Ysgrifennydd Gwladol a'i adran i gydweithio â mi a swyddogion, i ddeall yr effaith ar gwmnïau bychain yn well. Yn fy llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol, dyddiedig 15 Ionawr 2020, awgrymais mai'r ateb symlaf fyddai cyflwynon eithriad cyffredinol ar gyfer cludiant i'r ysgol. Byddai hyn yn dileu y baich gweinyddol ar yr Adran Drafnidiaeth ac Awdurdodau Lleol, y canlyniadau anfwriadol a brofwyd eisoes yn ogystal ag osgoi y tebygolrwydd o ragor o broblemau. Byddai hyn yn caniatáu i Awdurdodau Lleol a'r Adran Drafnidiaeth baratoi llwybr clir i newid y fflyd cludiant i'r ysgol i gydymffurfio gyda PSVAR, heb beryglu ymhellach na thanseilio y ddarpariaeth bresennol mewn unrhyw ffordd. Awgrymais hefyd, os nad oedd eithriad cyffredinol yn bosibl, bod manteision mewn cael eithriad arall ar gyfer y grŵp teithio hwn.

Rwyf hefyd wedi canfod bod PSVAR yn gysylltiedig â cherbydau sy'n cael eu defnyddio ar wasanaethau sydd yn lle rheilffyrdd. Ychydig o goetsus hygyrch sydd ar gael yng Nghymru, a byddai sefyllfa o'r fath yn mynd yn waeth pe byddai cerbydau o'r fath yn cael eu defnyddio ar deithiau ysgol ar yr oriau brig (y tua llan i eithriad PSVAR) ar yr un pryd.

O ystyried hyn, rwyf hefyd wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a swyddogion yr Adran Drafnidiaeth a ydynt yn bwriadu cyflwyno eithriad ar wahân ar gyfer gwasanaethau yn lle rheilffyrdd, i osgoi canlyniadau anfwriadol pellach.

---

---

## Cyhoeddwyd gyntaf

21 Ionawr 2020

## Diweddarwyd ddiwethaf

21 Ionawr 2020

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**17 CHWEFROR 2020**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Diweddariad ar y gofynion i ail-gyflwyno Map Integredig o'r Rhwydwaith Teithio Llesol a'r Map Llwybrau Presennol |
| **Awdur:** | Stephen O Jones, Prif Swyddog, Gwasanaethau Stryd a Chludiant, Cyngor Sir y Fflint |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhoi gwybod i'r Grŵp Cyflawni Trafnidiaeth am y gofynion ar bob awdurdod lleol i ail-gyflwyno eu hail Fap Integredig o'r Rhwydwaith a'u trydydd Map Llwybrau Presennol.

**2. Y penderfyniad a geisir**

2.1 Cydnabod y gofynion sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru.

**3. Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Nid oes angen penderfyniad.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithiau llesol ar gyfer yr ardaloedd anheddiad diffiniedig a chyflawni gwelliannau blynyddol i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn eu hardaloedd. Yn ogystal, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd a rhoi ystyriaeth i anghenion cerddwyr a beicwyr mewn ystod eang o swyddogaethau eraill sydd gan yr awdurdod priffyrdd. Yn ogystal, mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo siwrneiau teithio llesol.

4.2 Mae disgwyl i bob awdurdod lleol fonitro effaith y Ddeddf a'r cynlluniau penodol a gyflawnir o ganlyniad i'r Ddeddf. Mae'r Canllawiau Darparu sy'n cefnogi'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd am:

- Y newid yn lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol bob tro maent yn cyflwyno eu map llwybrau presennol am gymeradwyaeth;
- Y costau y maent wedi'u denu wrth greu a gwella'r isadeiledd teithio llesol;
- Sut maent wedi cyflawni eu swyddogaethau statudol a disgresiynol mewn ffordd sy'n hyrwyddo teithio llesol.

4.3 Mae'r Canllawiau Darparu yn un o ddwy ddogfen ganllaw sydd wedi'u cyheoddi gyda'r Ddeddf. Y Canllawiau Dylunio yw'r ail ddogfen, sy'n ymdrin â safonau technegol angenrheidiol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Mae'r Canllawiau Dylunio yn hanfodol ar gyfer penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch p'un a yw llwybr yn briodol ar gyfer teithio llesol, a pha gamau y dylid eu cymryd i wella'r llwybrau hyn yn y dyfodol. Yn sgil y Ddeddf, mae gofyn cynhyrchu dwy set o fapiau ar gyfer pob ardal anheddiad:

- Map llwybrau teithio llesol presennol a
- Map integredig o'r rhwydwaith.

4.4 Prif fwriad y Map Llwybrau Presennol yw rhoi gwybod i'r cyhoedd am y llwybrau diogel ac addas presennol ar gyfer teithio llesol a dyddiad cyflwyno cyntaf y Map Llwybrau Presennol i'r Gweinidogion oedd Ionawr 2016. Datblygwyd y Map Integredig o'r Rhwydwaith er mwyn egluro cynlluniau'r awdurdod lleol dros y pymtheg mlynedd nesaf a dyddiad cyflwyno cyntaf y Map Integredig o'r Rhwydwaith, gan ailgyflwyno'r map llwybrau presennol, oedd Tachwedd 2017. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r holl awdurdodau lleol am yr angen i ymgymryd ag ymgynghoriad ac ymgysylltu rhagweithiol ac effeithiol wrth baratoi eu mapiau integredig o'r rhwydwaith ac mae gofyn pellach o fewn y Ddeddf i gyflwyno'r Map Llwybrau Presennol a'r Map Integredig o'r Rhwydwaith i Lywodraeth Cymru erbyn 25 Medi 2020 a phob tair blynedd wedi hynny.

4.5 Ers gweithredu'r Ddeddf a chynhyrchu'r mapiau llwybrau presennol a'r mapiau integredig o'r rhwydwaith, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol drwy amrywiol ddulliau ar y materion y maent yn eu hwynebu wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol dan y Ddeddf. O ganlyniad i'r adborth, bwriad Llywodraeth Cymru yw adolygu'r isod:

- System Mapio Teithio Llesol
- Canllawiau Darparu a Dylunio
- Y Broses Ymgynghori

4.6 Mae'r Dirprwy Weinidog wedi datgan ei ddisgwyliad y bydd adolygu'r Canllawiau Darparu a Dylunio, ynghyd â hyfforddiant a chymorth ychwanegol gydag ymgynghori, yn cynhyrchu mapiau teithio llesol mwy effeithiol a chynhwysfawr gan awdurdodau lleol, a fydd wedyn yn arwain at ddatblygu cynlluniau gwell. Yn ogystal, mae'r Canllawiau Darparu a Dylunio wedi bod yn destun ymgynghori pellach drwy amrywiol ddulliau gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Disgwylir i'r ddogfen hon gael ei hadolygu a'i chyhoeddi yn yr hydref.

4.7 Disgwylir felly, o ganlyniad i'r adolygiadau uchod, y bydd oedi wrth ail-gyflwyno'r ail Fap Integredig o'r Rhwydwaith a'r trydydd Map Llwybrau Presennol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddrafftio nodyn gwybodaeth ar gyfer pob awdurdod lleol yn rhoi diweddariad ar y system mapio newydd, yr adolygiad o'r Canllawiau Dylunio a'r dyddiadau diwygiedig ar gyfer cyflwyno'r Map Integredig o'r Rhwydwaith. Y dyddiad dangosol cyfredol ar gyfer cyflwyno yw Chwefror 2021; fodd bynnag, mae canol 2022 yn fwy cyraeddadwy.

**5. Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae cyllid i greu ac ymgynghori ar y mapiau teithio llesol a oedd yn ofynnol fel rhan o'r ddyletswydd yn y Ddeddf wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol fel rhan o'r gronfa trafnidiaeth leol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi faint o gyllid, os o gwbl, a gaiff ei glustnodi ar gyfer creu ac ymgynghori ar y set nesaf o fapiau eto; fodd bynnag, mae arwyddion o fewn nodiadau Cyllid Craidd Teithio Llesol a fyddai'n caniatáu i'r grant hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer y diben hwn.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Rhaid i awdurdodau lleol gyflawni'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddf ers iddi ddod i rym. Nid yw methu cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny wedi'i brofi'n gyfreithiol eto.

**7. Goblygiadau Staffio**

7.1 Bydd awdurdodau lleol angen adnodd ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith paratoi ac ymgynghori ar gyfer cyflwyno'r Map Integredig o'r Rhwydwaith a'r Map Llwybrau Presennol y tro nesaf.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

8.1 Ystyrir anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o fewn y dogfennau Canllaw. Wrth weithredu'r canllawiau, rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

9.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal ar ail-gyflwyno'r ail Fap Integredig o'r Rhwydwaith a'r trydydd Map Llwybrau Presennol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r hyfforddiant a chymorth ychwanegol arfaethedig gydag ymgynghori i Awdurdodau Lleol eto.

**10. Atodiad**

10.1 Dim

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - corff atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. **Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**17 Chwefror 2020**

**Teitl:** *Diweddariad ar y Bil Bysiau (Cymru) a'r Adolygiad Bysiau Rhanbarthol*

**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Diweddaru Aelodau ar gynnydd gyda'r Bil Bysiau (Cymru) a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig. Yn ogystal, darperir diweddariad ar gynnydd gyda'r gwaith datblygu rhwydwaith bysiau rhanbarthol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

2.1 Gwahoddir Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion am adroddiadau pellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Mae goblygiadau posib yn sgil deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ddiwygio bysiau. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar i aelodau.

3.2 Yn ogystal, mae'r papur yn rhoi diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill i sefydlogi a chefnogi rhwydweithiau bysiau yn y Gogledd. Mae'r sector wedi cael cyfnod cythryblus iawn yn ddiweddar.

3.3 Yn olaf, roedd fersiwn gwreiddiol y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i sefydlu Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r mater hwn bellach wedi'i gynnwys o fewn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) arfaethedig, y cyhoeddwyd drafft ohono ddiwedd 2019. Mae'r papur yn rhoi diweddariad ar gynigion y bil i'r graddau eu bod yn berthnasol i elfen drafnidiaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

**Papur Gwyn Bysiau**

4.1 Ddiwedd 2018, cyhoeddwyd y Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) ac fe gynhaliwyd ymgynghoriad arno, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, deellir bod newidiadau wedi'u gwneud i'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Gweler y manylion isod.

- Ni fydd y cynigion ar gyfer Tacsis a cherbydau Hurio Preifat yn ymddangos yn y Bil terfynol. Ar hyn o bryd, mae LlC yn ystyried sut i fwrw ymlaen â gwaith i wella trwyddedu tacsis a chaiff cynigion pellach eu cyflwyno yn y man.
- Mae'r cynigion i adolygu deddfwriaeth Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth wedi'u tynnu o'r drafft terfynol o'r Bil hefyd. Bellach, mae'r cynigion hyn wedi'u hymgorffori yn y Papur Gwyn Llywodraeth Leol ac Etholiadau sydd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar.
- Yn ogystal, mae'r cynigion i adolygu'r newid oed yn y cynllun Tocynnau Rhatach wedi'u tynnu o'r Bil arfaethedig hefyd.

4.2 O ganlyniad i'r newidiadau hyn, dim ond newidiadau i wasanaeth bysiau fydd wedi'u cynnwys yn y Bil arfaethedig terfynol, a deallwn y gelwir hwn yn Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Bydd hwn yn cynnwys dau brif faes gweithgaredd:

1. Hwyluso Darpariaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau bysiau.
    a. Deallwn y bydd tri phŵer hwyluso yn fersiwn nesaf y Bil pan gaiff ei gyflwyno am ymgynghoriad.
        - Cynllun Partneriaeth Cymru newydd - i ddisodli'r cynnig blaenorol am Bartneriaethau Ansawdd Estynedig
        - Pwerau Masnachfreinio
        - Y pŵer i weithredu Gwasanaethau Bysiau Awdurdodau Lleol
2. Pwerau Rhannu Gwybodaeth
    a. Bydd dau brif bŵer i gefnogi Awdurdodau Lleol mewn perthynas â darparu gwybodaeth.
        - Bydd Awdurdodau Lleol yn medru gwneud cais am wybodaeth fanwl gan weithredwyr, lle gwneir cynigion i ddiddymu gwasanaethau bysiau, fel bod gwybodaeth ddiweddar ar gael i gynllunio ar gyfer gwasanaethau a.63 newydd.
        - Darparu dyddiad agor i gefnogi systemau gwybodaeth ar sail ap neu amser go iawn.

4.3 Deallwn y caiff Bil diwygiedig ar hyd yr un llinellau â'r uchod ei gyflwyno i'r Senedd yn ddiweddarach eleni a fydd yn destun ymgynghoriad manwl wedi hynny, cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno am

gymeradwyaeth. Bydd y broses ymgynghori hon yn cynnwys y darpariaethau arferol ar gyfer Asesiadau Effaith a chaiff ei chefnogi gan Nodiadau Eglurhaol.

4.4 Unwaith y bydd y Papur Gwyn manwl ar gael, darperir gwybodaeth bellach i'r Aelodau fel y gellir rhoi ymateb llawn i'r ymgynghoriad.

**Datblygu Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol**

4.5 Mae cyflwyniadau wedi'u darparu i Aelodau yn flaenorol ynghylch y potensial i ddatblygu rhwydwaith a dulliau bysiau strategol rhanbarthol. Mae hyn yn seiliedig ar yr anawsterau sydd wedi'u profi'n ddiweddar, gyda gweithredwyr bysiau yn stopio masnachu gyda sgil-effeithiau ar wasanaethau bysiau a chostau i awdurdodau lleol wrth iddynt orfod ail-ddarparu.

4.6 Fe gofia'r aelodau hefyd bod arian wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydlynu bysiau'n rhanbarthol, gyda chyllideb ar gael dros nifer o flynyddoedd. Mae hi wedi bod yn anodd adnabod secondiad i'r rôl hon, ac mae'r cynnydd wedi bod yn araf o ganlyniad i hynny, er gwaethaf peth cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd.

4.7 O ganlyniad, mae peth amser ymgynghorydd wedi'i brynu'n ddiweddar, gan ddefnyddio'r gyllideb sydd ar gael, i ddarparu capasiti ychwanegol a chefnogaeth i ddatblygu rhai cynigion i'w hystyried gan aelodau. Ar hyn o bryd, mae Trafnidiaeth Cymru yn ymgymryd ag adolygiad rhwydwaith i Wynedd, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae Sir y Fflint wedi ymgymryd ag adolygiad manwl o'u rhwydwaith yn flaenorol ac mae ganddynt gynigion datblygedig i sefydlu Partneriaeth Ansawdd ar y llwybr rhwng Caer a'r Rhyl. Yn ogystal, mae cynigion peilot yn datblygu ar gyfer Trafnidiaeth Ymateb i'r Galw yn Nyffryn Conwy. Bydd y gwaith yn adeiladu ar yr astudiaethau hyn ac yn ceisio datblygu dull ar gyfer y rhanbarth cyfan.

4.8 Mae'r cynllun gwaith cychwynnol yn cynnwys yr elfennau a ganlyn: -

- Adnabod a chynnig coridorau a fydd yn sefydlu rhwydwaith bysiau strategol rhanbarthol
- Datblygu cynigion ar gyfer partneriaethau ansawdd ar hyd y llwybrau hyn
- Gweithio ar gynigion ar gyfer DRT fel mewnlenwi i'r rhwydwaith craidd
- Ystyried opsiynau i sefydlu "gweithredwr pan fetha popeth arall" yn y rhanbarth
- Cefnogi'r rhaglen datgarboneiddio trafnidiaeth

4.9 Mae'r gwaith wedi dechrau'n ddiweddar. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod y gwaith yn plethu i mewn i'r prosiectau a'r cynlluniau peilot sydd ar y gweill ganddynt. Mae trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal gyda rhai gweithredwyr bysiau hefyd i weld beth fyddai'r potensial ar gyfer partneriaeth gref. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac mae cefnogaeth i ddatblygu model ar gyfer y dyfodol a cheisio trefniadau partneriaeth hir-dymor a fyddai'n sicrhau cymysgedd o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat mewn gwasanaethau bysiau rhanbarthol.

4.10 Nodir y bydd rhai cynigion cychwynnol o'r gwaith ar gael ar gyfer cyfarfod nesaf yr Is-fwrdd. Yn amodol ar gynnydd, darperir cyflwyniad ar y deilliannau cychwynnol a'r camau nesaf sydd wedi'u cynllunio i'r Aelodau.

**5. Goblygiadau Ariannol**

5.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; gwybodaeth am ddeddfwriaeth arfaethedig a'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ydyw yn bennaf. Pan gaiff ei chwblhau, bydd effeithiau ariannol i'r ddeddfwriaeth, ond caiff y rhain eu hamlygu mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad a ddylai ddilyn hynny.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn. Bydd gan Filiau arfaethedig Llywodraeth Cymru effeithiau arwyddocaol, ond cynhelir cyfnodau ymgynghori penodol ar y Biliau hyn a bydd gan yr Aelodau gyfle i roi sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori hanfodol.

**7. Goblygiadau Staffio**

7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

8.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

9.1 Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

Rwy'n croesawy'r adroddiad amserol yma ar y tirwedd deddwriaethaol sydd yn datblygu yn y maes llywodraeth leol a thrafnididaeth.

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Mae paragraff 5.1 o'r adroddiad yn nodi nad oes ymhlygiadau ariannol i'r adroddiad yma, a'i bwrpas yw rhoi gwybodaeth ar y ddeddfwriaeth arfaethedig a'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd ardrawiadau ariannol yn dilyn cwblhau'r ddeddfwriaeth, a bydd hynny'n cael ei amlygu mewn adroddiadau i ddod, neu yn ystod yr ymgynghori.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**17 Chwefror 2020**

**Testun:** **Adroddiad ar 'fannau gwefru' i'r Grŵp Trafnidiaeth Ranbarthol**

**Awdur:** Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd – Cyngor Gwynedd

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn trafod gosod isadeiledd er mwyn gosod, cynnal a rheoli mannau gwefru ar y cyd ar draws y rhanbarth er mwyn galluogi pobl fuddsoddi mewn cerbydau trydan a rhoi'r hyder iddynt fod darpariaeth yn ei le i'w gwefru

**2. Penderfyniad a Geisir**

2.1 Canfod arian a chomisiynu astudiaeth i asesu opsiynau rhanbarthol i osod, cynnal a rheoli mannau gwefru. Yn benodol fe all yr adroddiad ystyried mewn manylder yr agweddau canlynol:

- Y manteision/ anfanteision o weithio'n rhanbarthol ar ddarpariaeth mannau gwefru.
- Y gwahanol fodelau o weithredu sydd ar gael
- Cyd bwrcasu
- Cynnal yn rhanbarthol
- Cynnal gwybodaeth am leoliadau/ ffioedd
- Cydgordio gwybodaeth/ taliadau

**3. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad.**

3.1 Amlinelliad o'r cefndir i benderfynu os oes manteision o symud ymlaen gyda gosod, cynnal a rheoli mannau gwefru'n rhanbarthol.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau perthnasol**

**Cyd-destun cynnydd defnydd ceir trydan**

4.1 Mae llawer o alw i fod yn fwy caredig gydag ein Hamgylchedd, ac yn sicr mae sut yr ydym yn teithio yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau carbon ac felly'n cyfrannu tuag at newid hinsawdd ein byd.

4.2 Mae rhan helaeth o'n cerbydau yn defnyddio tanwydd ffosil. Mae technoleg yn ymwneud a'r cerbydau hyn wedi gwella'n sylweddol i leihau'r allyriadau ohonynt, ond ar yr un pryd mae'r galw amdanynt wedi golygu cynnydd sylweddol yn eu niferoedd. Mae hyn wrth gwrs wedi arwain at gynnydd yn y wlad yn gyffredinol o allyriadau carbon.

4.3 Un ffordd o leihau allyriadau carbon yw defnyddio cerbydau sydd ddim yn arllwys carbon. Y cerbydau sydd ar gael ar hyn o bryd yw cerbydau trydan, ond mae technoleg hydrogen ar gael yn ogystal.

4.4 Rhagwelir cynnydd sylweddol yn y nifer o gerbydau trydan fydd ar ein ffyrdd rhwng nawr a 2030. Gweler yn graff 1 y rhagolygon gan SP Energy. Mae copi o adroddiad llawn SP Energy fel a ganlyn:

https://www.spenergynetworks.co.uk/userfiles/file/Electric_Vehicle_Uptake_Forecasts.pdf

**Graff1: Rhagolwg o gynnydd yng ngherbydau trydan ar draws Prydain.**





**Figure 1: Government forecasts for the uptake of EVs**

**Sut ydym yn cyfarch y galw yma fesul Sir?**

4.5 Mae pob awdurdod ar draws ein rhanbarth yn gweithredu ar osod, cynnal a rheoli mannau gwefru mewn modd gwahanol. Gweler o Dabl 1 wybodaeth fesul Sir am nifer o fannau gwefru sy'n bodoli yn bresennol, be ydi'r cynllun i'w cynyddu a sut meant yn cael eu rheoli.

**Tabl 1: Gwybodaeth Sirol am fannau gwefru:**

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan [CT] Rhanbarthol:

| Awdurdod | Nifer o Bwyntiau Gwefru CT ar hyn o bryd | Pwyntiau Gwefru CT wedi eu Cynllunio ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. | Sut mae'r pwyntiau gwefru yn cael eu rheoli? E.e. Yn fewnol neu allanol? | Sut mae defnyddwyr yn talu am wefru eu Cerbyd Trydan? |
|---|---|---|---|---|
| **YNYS MÔN** [Defnydd Preifat] | 7 | Dim gwybodaeth – bid ar gyfer arian cyfalaf mewnol wedi ei gyflwyno. | Mewnol | Dim ar gyfer defnydd preifat – fflyd y cyngor yn unig. |
| **YNYS MÔN** [Defnydd Cyhoeddus] | 14 (7 pwyntiau deuol) | Fe fydd 3 man gwefru yn cael eu gosod yn yr Unedau Busnes newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Bydd is-adeiladd mewn lle ar gyfer gosod hyd at 10 man gwefru pe byddai angen eu gosod yn y dyfodol. | Mewnol ac allanol - gweler y golofn nesaf. | Gall deiliaid cyfrif Chargemaster ddefnyddio'r mannau gwefru drwy sganio eu cerdyn.<br>Mae pob deilydd cyfrif Chargemaster yn talu ffi misol.<br>Mae'r Cygor yn hawlio'r arian yn ôl am y trydan a ddefnyddir. |
| **DINBYCH** | 2* | 10 i gychwyn a gall gynyddu yn amodol ar gyllid | Allanol | APP Smartphone |
| **FFLINT** | 2 wedi eu gosod gan y Cyngor Tref | 10 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| **GWYNEDD** | 8 [Fflyd yn unig] | 84 Cyhoeddus + 4 Fflyd | Allanol | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. Taliad digyswllt wedi ei gynllunio i'w gyflwyno yn y dyfodol agos. |
| **WRECSAM** | 7 ar gael i'r Cyhoedd.<br>8 Man gwefru i'r gweithlu | Oddeutu 10-15 mannau gwefru o fewn y misoedd nesaf. | Yn eiddo i'r awdurdod lleol ond yn cael ei weithredu drwy fodel rhatach. Mae ganddom gytundeb cynnal a chadw mewn lle. | Cael ei weithredu drwy rwydwaith Energie. Defnyddwyr yn talu am y trydan drwy system APP. |

4.6 Gweler o'r tabl bod gwahanol fodelau sy'n cynnwys allanoli'r gwaith, ei gadw'n fewnol neu gymysgedd a debyg y bod angen deall beth yw'r manteisio ac anfanteision o bob model os am sefydlu trefniadau rhanbarthol

4.7 Mae'n werth nodi'r model rheoli'r mannau gwefru sy'n bodoli yn yr Alban. Mae 'ChargePlace Scotland' yn rhwydwaith cenedlaethol o bwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd ar gael ledled yr Alban. Mae rhwydwaith 'ChargePlace Scotland' wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth yr Alban trwy arian grant gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill i osod pwyntiau gwefr sydd ar gael i'r cyhoedd. Gelwir derbynwyr yr arian yn 'westeion'. Gwesteiwr yw perchennog dynodedig y pwyntiau gwefru y maent wedi'u gosod ac maent hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw eu pwyntiau gwefru yn gyffredinol. Gweithredir rhwydwaith ChargePlace Scotland ar ran Llywodraeth yr Alban gan Charge Your Car Ltd.

4.8 Mae 'ChargePlace Scotland' yn gweithredu trwy ddarparu un system rheoli pwyntiau gwefr genedlaethol y gall perchnogion pwyntiau gwefru gysylltu pwyntiau gwefru â hi, gan wneud y pyst yn weladwy i bob gyrrwr Cerbyd Trydan trwy fap statws byw 'ChargePlace Scotland'. Mae 'ChargePlace Scotland' yn galluogi perchnogion pwyntiau gwefru i osod y tariff ar gyfer pob pwynt gwefru, casglu taliad i'w ddefnyddio, ac yn darparu rhybuddion os bydd nam.

4.9 Gellir gweld mwy am 'ChargePlace Scotland' drwy gyfeirio at

https://chargeplacescotland.org/

**Argymhelliad**

4.10 Canfod arian a chomisiynu astudiaeth i asesu opsiynau rhanbarthol i osod, cynnal a rheoli mannau gwefru. Yn benodol fe all yr adroddiad ystyried mewn manylder yr agweddau canlynol:

- Y manteision/ anfanteision o weithio'n rhanbarthol ar ddarpariaeth mannau gwefru.
- Y gwahanol fodelau o weithredu sydd ar gael
- Cyd bwrcasu
- Cynnal yn rhanbarthol
- Cynnal gwybodaeth am leoliadau/ ffioedd
- Cydgordio gwybodaeth/ taliadau

**5. Goblygiadau Ariannol**

Fe fydd y gwaith dichonoldeb yn adnabod y ffordd fwyaf effeithiol o gwrdd â'r angen ac yn ceisio dadansoddi'r costau gosod, cynnal a rheoli. Posib i hyn gael ei ariannu gan Llwyodraeth Cymru [dan ymgyrch y METRO] neu ffynhonellau eraill sydd ar gael.

**6. Ystyriaethau Cyfreithiol**

Fe fydd yr ystyriaethau yn wahanol yn ddibynnol ar ba opsiwn o weithredu sydd yn cael ei fabwysiadu.

**7. Goblygiadau Personél**

Gall rhai modelau gweithredu fod angen adnodd personél, ond hyd nes cawn ddewis opsiwn mae'r anodd bod yn bendant ar hyn o bryd.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni ragwelir effaith negyddol ar gydraddoldeb ond fe fydd angen asesiad o'r effaith posib wrth ystyried opsiynau.

**9. Ymgynghori sydd wedi digwydd**

Fe fydd yr astudiaeth yn adnabod yr ymgynghori sydd ei angen.

**10. Atodiadau**

Rhestru'r atodiadau perthnasol

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro'r awdurdod lletyol:**

Fel sydd yn cael ei nodi ym mharagraff 6, mi all fod oblygiadau cyfreithiol yn ddibynnol ar ba opsiwn o weithredu sydd yn cael ei fabwysiadu. Disgwylir felly i'r astudiaeth ystyried yr elfennau hyn pan yn asesu opsiynau. Dim sylwadau eraill o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid yr awdurdod Lletyol:**

Fel mae paragraff 5 o'r adroddiad, deallaf bydd yr awdur yn ceisio am adnoddau gan Lywodraeth Cymru neu ffynonellau eraill i ariannu'r gwaith dichonoldeb (astudiaeth) yn gyntaf, a hynny'n bennaf i edrych ar y buddion a chyfleon sy'n dod o weithio'n rhanbarthol ar holl faterion yn ymwneud a gosod, cynnal a rheoli mannau gwefru. Fel rhan o'r gwaith dilynol hwnnw, mae'n bosib bydd angen adnabod ffynonellau ariannol i yrru rhaglen waith, ond am y tro mae angen arian ar gyfer yr astudiaeth yn unig.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 17 Chwefror 2020**

**Teitl:** **HYDROGEN - TANWYDD I'R DYFODOL**
**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Diweddaru'r Aelodau ar y gwaith o ddatblygu cynigion am hwb hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy fel rhan o strategaeth ehangach i ystyried defnyddio hydrogen fel rhan o'r rhwydweithiau tanwydd trafnidiaeth yn y dyfodol.

Ceisio barn ynghylch p'un a ellid datblygu dull o brynu cerbydau hydrogen ar y cyd fel rhan o wasanaethau fflyd Awdurdodau Lleol.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

2.1 Nodi'r adroddiad.

2.2 Ystyried p'un a oes cyfleoedd i brynu mathau o gerbydau ar y cyd ymhlith partneriaid awdurdodau lleol.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Mae nifer o astudiaethau ar y gweill i adnabod cyfleoedd a phrosiectau peilot i ddatgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth yn y Gogledd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y gwaith ac mae'n ceisio sylwadau gan yr Aelodau.

3.2 Bydd adroddiadau pellach yn cael eu darparu i'r is-fwrdd wrth i'r prosiectau ddatblygu ac esblygu.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Yn 2019, comisiynodd y Bwrdd Uchelgais ymgynghorwyr i ystyried opsiynau ar gyfer datgarboneiddio rhwydweithiau cludiant teithwyr yn y Gogledd. Ymhlith yr ardaloedd dan ystyriaeth oedd (1) Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy - datgarboneiddio cludiant teithwyr (2) Parc Cenedlaethol Eryri - rhwydwaith cludiant teithwyr (3) Rhwydwaith bysiau lleol Caergybi - llwybrau bysiau carbon isel.

**Prosiect Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy**

4.2 Roedd y cynnig gwreiddiol yn rhagweld y posibilrwydd o ddefnyddio bysiau trydan neu drydan hydrogen ar wasanaeth gwennol Glannau Dyfrdwy. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai'r ardal yn addas ar gyfer prosiect peilot, cyhyd â bod y cerbydau priodol ar gael. Ar hyn o bryd, y bysiau trydan hydrogen sydd ar gael yw cerbydau deulawr mwy.

4.3 Ar wahân ac fel rhan o'r gwaith datblygu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, comisiynwyd Advisian / Jacobs i ystyried cyfleoedd i ddatblygu'r economi hydrogen yn y rhanbarth fel rhan o Raglen Ynni Blaengar y Cynllun Twf. Mae'r adroddiadau drafft cychwynnol sy'n deillio o'r gwaith hwnnw nawr yn dangos bod nifer o gyfleoedd posib.

4.4 O ganlyniad, mae potensial i ddatblygu prosiect sy'n cysylltu amrywiol gyfleoedd fel prosiect peilot i gefnogi'r defnydd o hydrogen wrth ddatgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth.

4.5 Mae'r cynigion sy'n cael eu datblygu yn dal i fod yn eu camau cynnar; fodd bynnag, gyda'r arian a allai fod ar gael drwy'r Cynllun Twf, gobeithir y gellir datblygu'r prosiect i achos busnes llawn ac arian datblygu. Mae'r trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r trafodaethau gyda Sir y Fflint, wedi bod yn gadarnhaol. Erbyn hyn, mae cynlluniau i wneud peth gwaith cychwynnol i asesu a oes cefnogaeth gan fusnesau yn yr ardal i fod yn rhan o'r prosiect.

**Amlinelliad Posib o'r Prosiect**

4.6 Mae'r adroddiad drafft sydd ar gael ar hyn o bryd yn amlygu nifer o gyfleoedd posib yn ardal Glannau Dyfrdwy ac, os cânt eu cyfuno, gallent gyflawni prosiect peilot a fyddai o bwys wrth asesu cyfleoedd i ddatgarboneiddio trafnidiaeth.

4.7 Mae'r elfennau posib amrywiol wedi'u hamlinellu isod.

4.8 **Datblygu Cyfleuster Llwytho Hydrogen Gwyrdd** - Mae'r cynnig hwn yn awgrymu y byddai, yn gychwynnol, yn gyfleuster diwydiannol wedi'i leoli yng Nglannau Dyfrdwy er mwyn cynhyrchu a storio hydrogen gwyrdd, er mwyn ei gludo'n uniongyrchol oddi yno at y defnyddwyr. Byddai'r depo hydrogen wedi'i ddylunio i gael tanciau ar raddfa diwydiannol ar y tir, a phontydd i arllwys cynnyrch i'r tanceri ffordd neu gerbydau eraill (yn cynnwys llongau) neu llinell beipiau, ar y cyd ag electroleiddwyr i gynhyrchu hydrogen ar amserlen gynhyrchu hyblyg. Byddai'r safle'n defnyddio ynni adnewyddadwy lle bo hynny ar gael i sicrhau bod yr hydrogen a gynhyrchir yn "wyrdd".

4.9 **Gwasanaethau Cludiant Teithwyr** - Mae cyfle'n bodoli i gaffael nifer o gerbydau bws-midi a fyddai'n addas ar gyfer gwasanaeth gwennol Glannau Dyfrdwy a gwasanaethau eraill yn y Gogledd. Mae opsiynau i gaffael ar y cyd ag ardaloedd eraill. Byddai cyfle pellach i asesu diddordeb gan weithredwyr bysiau masnachol sy'n gwasanaethu ardal Glannau Dyfrdwy ac ar hyd yr aber i drosi i gerbydau hydrogen dim carbon hefyd.

4.10 **Fflyd Awdurdodau Lleol** - Mae Sir y Fflint wedi dangos peth diddordeb mewn defnyddio cerbydau tanwydd hydrogen i leihau allyriadau carbon ar draws eu fflyd. Mae'n debygol y bydd faniau a cherbydau nwyddau trwm ac ysgafn dim carbon ar gael ar y farchnad. Unwaith eto, mae'n debyg y bydd angen caffael ar y cyd i sicrhau bod maint yr archeb yn ddigonol i ddenu diddordeb gan weithgynhyrchwyr.

4.11 **Cerbydau Nwyddau Trwm** - Mae defnyddio hydrogen fel tanwydd ar gyfer cerbydau nwyddau trwm wedi'i gyfyngu yn y DU ar hyn o bryd ac nid oes llawer o gynnyrch ar y farchnad. Mewn gwledydd eraill, mae'r cynnydd yn gyflymach. Mae'r adroddiad drafft yn dangos y gallai fod cyfle i ddatblygu prosiect mewn partneriaeth â gweithgynhyrchwr ar gyfer math penodol o gerbyd. Awgrymir tryciau 18 tunnell. Yn ddelfrydol, byddai'r rhain yn fwyaf addas i symudiadau cerbydau ar sail allan ac yn ôl, yn sgil yr angen i ail-lenwi â thanwydd.

4.12 Pe byddai digon o ddiddordeb ymhlith busnesau yn yr ardal i weithio ar y cyd ar gynnig o'r fath, byddem yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynnig ariannu ar gyfer prosiect o'r fath. Byddai hyn yn targedu Cyllid Innovate UK a gellid cael arian cyfatebol drwy'r Cynllun Twf a chyllid arall.

**Camau Nesaf**

4.13 Disgwylir adroddiad terfynol y gwaith ymgynghorol yn yr wythnosau nesaf. Defnyddir hwn i helpu i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol am brosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru. Cynhelir trafodaethau pellach hefyd gyda Llywodraeth Cymru, BEIS ac Innovate UK i fesur lefel y gefnogaeth i brosiect peilot uchelgeisiol o'r math yma. Bydd deilliannau'r trafodaethau hyn yn cael eu bwydo i'r Achos Busnes Amlinellol.

4.14 Yn y cyfamser, cynhelir trafodaethau gyda nifer o ddefnyddwyr fflyd mawr yn ardal Glannau Dyfrdwy i asesu a oes cefnogaeth bosib i fod yn rhan o'r prosiect. Ar y cam hwn, cydnabyddir mai 'mewn egwyddor' fydd y gefnogaeth, yn amodol ar ddeilliannau'r achos busnes a'r lefel o ddiddordeb. Cynhelir gweithdy, i gynnwys partïon sydd â diddordeb a'r ymgynghorwyr a baratôdd yr adroddiad a Llywodraeth Cymru hefyd, tua diwedd mis Chwefror. Bydd y gweithdy hwn yn helpu i ffurfio a datblygu'r Cynllun Busnes Amlinellol.

4.15 Yn ogystal, gwahoddir aelodau i ystyried a oes rhinwedd i ddulliau caffael cerbydau carbon isel ar y cyd, i'w defnyddio mewn fflyd awdurdodau lleol. Gallai caffael cerbydau casglu gwastraff, tryciau a faniau trwm ac ysgafn ar y cyd, arwain at arbedion cost. Yn ogystal, gallai caffael ar y cyd fod yn ysgogiad i weithgynhyrchwyr gyflwyno cynnyrch newydd i'r farchnad.

**Parc Cenedlaethol Eryri**

4.16 Roedd y cynigion cychwynnol yn cynnwys asesiad o p'un a ellid trosi gwasanaethau cludiant teithwyr presennol sy'n gwasanaethu twristiaid yn y parc i gerbydau dim carbon neu garbon isel. Roedd deilliannau'r adroddiad yn gymysg. Yn sgil topograffi a'r mathau o lwybrau yn yr ardal, roedd bysiau trydan yn annhebygol o fod yn addas oherwydd oes y batri. Mae dewisiadau amgen posib drwy hydrogen, ond byddai angen isadeiledd ychwanegol.

4.17 Fodd bynnag, y mater pwysig yw bod y rhwydwaith Sherpa cyfredol yn un optimaidd, fwy na thebyg, am yr arian sydd ar gael. Byddai angen cymhorthdal refeniw pellach i ddatblygu'r rhwydwaith ymhellach. Yn ychwanegol, mae defnydd y gwasanaeth yn amrywiol iawn, yn seiliedig ar alw. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen adolygiad manwl o fynediad, meysydd parcio a dewisiadau amgen i fynediad drwy geir.

4.18 O ganlyniad, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cyd-ariannu adroddiad arwyddocaol, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i adolygu mynediad, parcio a chludiant yn Nyffryn Ogwen a Nant Peris. Dylai'r adroddiad hwn fod ar gael tua chanol 2020 a chaiff ei ddefnyddio i gefnogi a ffurfio ymyriadau pellach.

**Caergybi**

4.19 Ystyriodd yr adroddiad a oedd opsiynau i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith bysiau lleol yn ardal Caergybi, hefyd. Mae pedwar cerbyd yn darparu gwasanaethau lleol yn yr ardal ar hyn o bryd, sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion lleol.

4.20 Mae'r milltiroedd dyddiol a deithir gan dri o'r pedwar bws lleol yng Nghaergybi yn ddigon isel i allu defnyddio trydan, gan ddefnyddio gwefru dros nos yn unig. Mae hyn yn ffortunus, gan fod gweithrediad y bysiau hyn yn barhaus, fwy neu lai, drwy gydol y diwrnod gwaith, heb unrhyw amser addas i ail-wefru. Gallai'r pedwerydd llwybr fod yn addas os caiff ei addasu rhywfaint fel bod cyfleoedd gwefru yn bosib, neu bod y llwybr yn cael ei adolygu i leihau'r milltiroedd.

4.21 Daw'r adroddiad i'r casgliad y gallai datrysiad trydan yn unig fel prosiect arddangos yng Nghaergybi fod yn hyfyw. Mae'r adroddiad yn nodi hefyd y gallai datrysiadau hydrogen fod yn ymarferol yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae achos i'w wneud am brosiect tymor byrrach a fyddai'n arwain at rwydwaith lleol wedi'i ddatgarboneiddio yn y dref.

4.22 Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddeall a yw prosiect yn bosib gan ddefnyddio arian o gyfle cyllido prosiect Cerbydau Allyriadau Isel Llywodraeth Cymru. Darperir manylion pellach os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

**5. Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar astudiaethau sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac a ariennir o gyllidebau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo. Pe byddai'r prosiectau'n mynd yn eu blaenau, byddai goblygiadau cost, fodd bynnag, caiff y rhain eu hasesu fel rhan o ddatblygu achosion busnes cyn cyflawni'r prosiectau.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar astudiaethau sydd ar y gweill. Mae'n bosib y byddai angen adolygu rhai o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer rhai agweddau o gyflawni'r prosiectau, os caiff achos busnes hyfyw ei sefydlu.

**7. Goblygiadau Staffio**

7.1 Mae'r gwaith o reoli'r prosiect a'r rhaglen yn cael ei wneud o fewn yr adnoddau presennol. Caiff goblygiadau adnoddau pellach sylw o fewn y gwaith o ddatblygu'r achos busnes.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

8.1 Ni ragwelir unrhyw effaith ar y cam hwn o ddatblygu'r prosiect

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

9.1 Mae'r prosiect wedi'i ystyried yng nghyfarfod Grŵp Rheoli'r Swyddogion ar gyfer yr Is-fwrdd Trafnidiaeth.
Cynhelir ymgynghoriad pellach lle bo hynny'n briodol ar y cam perthnasol o ddatblygu'r prosiect.

**10. Atodiad**

Dim

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Mae paragraff 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau bod yr astudiaethau cyfredol wedi'u hariannu o gyllidebau cymeradwy presennol, a bydd asesiad o'r ymhlygiadau cost pe bai'r prosiectau'n bwrw 'mlaen yn y dyfodol.